OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 257

## Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) (Diwygio) 2020

**Diwygio Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "y Rheoliad CE" ("*the EC Regulation*") yn lle "I neu II" rhodder "1, 2 neu 3".

(3) Yn rheoliad 4(2) (tramgwyddau a chosbau)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (ch) hepgorer "a";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (d) yn lle "." rhodder ";";

(c) ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(dd) Erthygl 8(2)(a)(i) (gwahardd ychwanegu sylwedd a restrir yn Atodiad 3, Rhan A at fwydydd neu ei ddefnyddio wrth weithgynhyrchu bwydydd);

(e) Erthygl 8(2)(a)(ii) (gwahardd ychwanegu sylwedd a restrir yn Atodiad 3, Rhan B at fwydydd neu ei ddefnyddio wrth weithgynhyrchu bwydydd oni bai bod y sylwedd hwnnw yn cael ei ychwanegu neu ei ddefnyddio yn unol â'r amodau a bennir yn y Rhan honno)."

(4) Ar ôl rheoliad 4 mewnosoder—

"**Darpariaeth drosiannol mewn perthynas â bwyd sy'n cynnwys sylwedd a restrir yn Atodiad 3, Rhan B**

**4A.** Nid oes tramgwydd wedi'i gyflawni o dan baragraff (1) o reoliad 4 yn rhinwedd paragraff (2)(e) o'r rheoliad hwnnw mewn cysylltiad ag ychwanegu sylwedd at unrhyw fwyd neu ei ddefnyddio i weithgynhyrchu unrhyw fwyd os—

(a) yw'r bwyd wedi'i roi ar y farchnad cyn 1 Ebrill 2021; a

(b) yw'r sylwedd o dan sylw yn dod o fewn y cofnod yn Atodiad 3, Rhan B sy'n ymwneud â thraws-fraster ac eithrio traws-fraster sy'n digwydd yn naturiol mewn braster sy'n dod o anifeiliaid."

(**1**) O.S. 2007/1984 (Cy. 165), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/2303 (Cy. 227) ac O.S. 2018/806 (Cy. 162). Mae wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/179 (Cy. 45).